

2011/2012

Hysbysiad Treth y Cyngor Council Tax Notice

Mae'r Cyngor wedi clustnodi £500.809m yn ei gyllideb i wario ar ddarparu gwasanaethau i'w drethdalwyr yn 2011/12 (o'i gymharu â ffigur o £469.803m yn 2010/11). Telir swm pellach o £9.131m i gyrff cyhoeddus eraill ar ffurf taliadau treth a chyfraniadau. Y gwariant net yw £312.357m. £932.77 fydd y dreth Band D a godir gan y Cyngor Sir ar Drethdalwyr y Cyngor ar gyfer 2011/12, sy'n cynrychioli codiad o 3.74% o ran Treth y Cyngor.

The Council has budgeted to spend £500.809m on the provision of services to its taxpayers in 2011/12 (compared to a figure of £469.803m in 2010/11). A further sum of £9.131m will be paid to other public bodies in the form of levies and contributions. Net expenditure is set at £312.357m. For the Council Taxpayer, the Band D tax levied by the County Council will be £932.77 for 2011/12, which represents an increase in Council Tax of 3.74%.

Yr hyn y mae'r Cyngor wedi'i glustnodi ar gyfer:

	Gwariant/Expenditure		
	2010/2011 Gross £m	2011/2012 Gross £m	Net £m
Gwasanaethau			
Gwasanaethau Canolog	35.374	38.890	20.461
Gwasanaethau Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio	57.639	59.022	30.491
Addysg a Gwasanaethau Plant	186.728	203.523	164.723
Gwasanaethau Prifffyrdd, Ffyrdd a Thrafnidiaeth	33.013	33.150	20.523
Gwasanaethau Tai	74.216	79.463	2.845
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	82.833	86.761	62.612
Gwariant ar Wasanaethau	469.803	500.809	301.655
Trethi a godir ar gyfer:			
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	0.166	0.160	0.160
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	9.023	8.971	8.971
Gweddillion(-)/Diffygion y Cyfrif Masnachu	1.342	1.644	1.644
Cyfrif Rheoli Asedau a Llog	14.876	6.047	6.047
Addasiad i'r Gronfa Pensiwn	-5.123	-5.123	-5.123
Cyfraniadau i'r/o'r(-) Cronfeydd wrth gefn	-1.184	-0.997	-0.997
Gwariant y Cyngor Sir	488.903	511.511	312.357
I'w ariannu drwy:			
Grant Cynnal Refeniw y Llywodraeth	-200.899	-206.482	
Treth Annomestig Cenedlaethol	-50.919	-42.829	
Grantiau/Ad-daliadau Penodol	-84.553	-99.636	
Ffioedd, Taliadau ac Incwm Arall	-92.264	-99.518	
Talwyr Treth y Cyngor	-60.268	-63.046	
	-488.903	-511.511	

The Council has budgeted to spend on:

Services

Central Services
Cultural, Environmental and Planning Services
Education & Children's Services
Highways, Roads and Transport Services
Housing Services
Adult Social Services

Expenditure on Services

Levies and contributions:

Brecon Beacons National Park
Mid and West Wales Fire and Rescue Authority
Net Trading Account Surpluses(-)/Deficits
Asset Management Account and Interest
Pensions Reserve Adjustment
Contributions to/from(-) Reserves

County Council Expenditure

To be financed from:

Government Revenue Support Grant
National Non Domestic Rates (NNDR)
Specific Grants/Reimbursements
Fees, Charges and Other Income
Council Taxpayers

Gwariant cyfalaf

Mae'r awdurdod yn bwriadu gwario £71.4m yn 2011/12 ar brosiectau cyfalaf (£78.2m yn 2010/11), a ariennir o'r ffynonellau canlynol:-

	£m
Benthyciadau	24.8
Derbyniadau o Werthu Asedau	10.2
Cymorth Grant	21.9
Ffynonellau Eraill	14.5
Total	71.4

Capital expenditure

The authority intends to spend £71.4m in 2011/12 on capital projects (£78.2m in 2010/11), which will be financed from the following sources:-

Loans Raised
Proceeds from Sale of Assets
Grant Aid
Other Sources

Cronfeydd ariannol wrth gefn

Mae angen cronfeydd cyffredinol wrth gefn (neu weddillion) i ganiatáu ar gyfer lefelu'r codi a'r gostwng sy'n digwydd mewn gweithgareddau ariannol unrhyw flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd gweddillion o'r fath tua £7.4m ar y 31ain o Fawrth, 2012 (£8.4m ar y 31ain o Fawrth, 2011). Mae'r awdurdod hefyd wedi rhoi cronfeydd eraill wrth gefn o'r neilltu i gwrdd â gwariant penodol ac amcangyfrifir y bydd eu cyfanswm hwy yn £38.5m ar yr 31ain o Fawrth, 2012 (£44.3m ar yr 31ain Fawrth 2011).

Financial reserves

General reserves (or balances) are necessary to provide for levelling out of normal peaks and troughs of a year's financial activities. It is estimated that such balances will stand at around £7.4m on 31st March 2012 (£8.4m on 31st March 2011). The Authority has also set aside other reserves to meet specific expenditure and these are estimated to amount to £38.5m on 31st March 2012 (£44.3m on 31st March 2011).

www.sirgar.gov.uk



www.carmarthenshire.gov.uk

Nodiadau Esboniadol

Canllawiau yn unig yw'r nodiadau byr hyn ac efallai y bydd angen bodloni amodau eraill cyn y gellir rhoi gostyngiad. Am wybodaeth bellach neu gyngor ynghylch Treth y Cyngor gweler cefn y bil am fanylion cyswllt, neu ffoniwch 01554 742200. Fel arall gallwch droi at wefan y Cyngor Sir www.sirgar.gov.uk i weld yr adran ryngweithiol ar Dreth y Cyngor.

Bandiau Priso Treth y Cyngor

Mae pob preswylfa wedi cael ei rhoi yn un o'r 9 band priso canlynol:

Band	Gwerth yr Eiddo
A	Hyd at £44,000
B	£44,001 – £65,000
C	£65,001 – £91,000
D	£91,001 – £123,000
E	£123,001 – £162,000
F	£162,001 – £223,000
G	£223,001 – £324,000
H	£324,001 – £424,000
I	£424,001 a rhagor

Mae preswylfeydd yn cael eu gosod yn y Band sy'n cynrychioli eu gwerth ar y farchnad agored yn Ebrill 2003. Bydd preswylfeydd newydd a adeiladwyd ar ôl Ebrill 2003 yn cael eu priso yn ôl prisiau Ebrill 2003. Mae eich bil Treth y Cyngor yn dangos ym mha fand y cafodd eich preswylfa ei gosod.

Apêl yn erbyn y Priso

Mae Asiantaeth y Swyddfa Briso – cangen o Gyllid y Wlad – yn gyfrifol am briso Treth y Cyngor. Os ydych o'r farn fod band priso eich preswylfa yn anghywir, gallwch apelio i'r Swyddfa Briso (gweler y cyfeiriadau isod):

Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Picton,

Caerfyrddin, SA31 3BT

neu

Tŷ Nant, Stryd Fawr, Abertawe, SA1 1JR

(ar gyfer preswylfeydd yn hen ranbarth Bwrdeistref Llanelli)

Llinell Gymorth 0845 6001748

Gellwch hefyd apelio os ydych o'r farn fod gwerth eich preswylfa wedi gostwng, er enghraifft, oherwydd dymchwel rhan o'r adeilad, newid yng nghyflwr ffisegol yr ardal leol, neu addasiadau i wneud y breswylfa'n un addas ar gyfer rhywun ag anabledd corfforol.

Mae rheolau a therfynau amser ar gyfer apelio. Felly, byddai'n dda o beth ichi gysylltu â llinell gymorth y Swyddfa Briso i gael cyngor a chyfarwyddyd.

Apelio yn Erbyn Atebolrwydd i dalu

Gellwch apelio hefyd os credwch nad ydych yn gorfod talu treth y cyngor, er enghraifft, am nad chi yw'r preswilydd neu'r perchennog, neu am fod eich eiddo wedi'i eithrio; neu am fod y Cyngor wedi gwneud camgymeriad wrth gyfrif eich bil.

Os dymunwch apelio ar sail un o'r rhain, mae'n rhaid i chi'n gyntaf hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig er mwyn iddynt gael cyfle i ailystyried yr achos.

Os nad ydych yn fodlon ar ymateb y Cyngor ceuwch apelio ymhellach i Dribiwnlys Priso. Nid yw apelio yn caniatáu i chi beidio â thalu'r dreth sy'n ddyledus yn y cyfamser, ond os bydd eich apêl yn llwyddiannus bydd gennych hawl i gael ad-daliad o unrhyw dreth ormodol a dalwyd.

Gellir cael manylion pellach am y gweith-drefnau apelio (gan gynnwys swyddogaeth y tribiwnlysoedd priso) oddi wrth y Cyngor.

Gostyngiadau - Gwnewch gais am ostyngiadau yn ddi-oed er mwyn osgoi unrhyw golled bosibl

Os na fydd ond un oedolyn yn byw mewn tŷ, ceir disgownt o 25%. (ond gweler y nodiadau isod yn ymwneud â Thai Gwag ac Ail Gartrefi) Ni chyfrifir y bobl ganlynol wrth edrych ar nifer y preswylwyr, os bodlonir yr amodau:

- Myfyrwyr amser llawn, myfyrwyr nyrsio a myfyrwyr ieithoedd tramor
- Myfyrwyr o dan 20 oed sy'n astudio cwrs rhan-amser er mwyn cymhwyso
- Rhywun sy'n briod, yn bartner sifil, neu'n

ddibynnydd i fyfyrwr, nad yw'n ddinesydd Prydeinig ac sy'n cael ei atal rhag cymryd gwaith cyflogedig neu hawlio Budd-daliadau Gwladol.

- Plant y telir Budd-dâl Plant ar eu cyfer
- Rhai 18 a 19 oed sydd yn yr ysgol, neu newydd adael
- Prentisiaid a rhai ar Gyrsiau Hyfforddiant i'r Ifanc
- Pobl sydd â salwch meddwl difrifol
- Rhai sy'n byw'n barhaol mewn cartrefi preswyl neu ysbytai GIG
- Pobl sy'n gofalu am rywun anabl nad yw'n briod, yn bartner, nac yn blentyn o dan 18
- Gweithwyr gofal Awdurdod Lleol / elusennau penodol
- Aelodau o gymuned grefyddol (e.e. *mynachod neu leianod*)
- Preswylwyr hostel
- Aelodau o Luoedd sydd ar Ymweliad neu Bencadlysoedd Rhyngwladol a Chyrrff Amddiffyn
- Carcharorion a gafwyd yn euog neu sy'n aros eu prawf.

Hefyd, yn ychwanegol at y gostyngiadau statudol a grybwyllir uchod, mae gan Gyngorau y grym i roi gostyngiadau ar sail ddewisol ac yn ôl amgylchiadau lleol.

Tai Gwag ac ail Gartrefi

Bydd y rhan fwyaf o dai gwag wedi'u heithrio o Dreth y Cyngor am y chwe mis cyntaf, ac wedyn rhoddir disgownt o 50%. Mae rhai eithriadau i'r rheol hon (*gweler isod*), ac o dan rai amgylchiadau ni chodir tâl o gwbl (*gweler Anheddau sydd wedi'u Heithrio isod*).

Fodd bynnag, os bydd tŷ wedi'i ddodrefnu a neb yn byw ynddo, neu wedi'i ddodrefnu a heb fod yn brif breswylfa ni fydd cyfnod eithriedig (*ond gweler Anheddau sydd Wedi'u Heithrio isod*) ac ni chaniateir disgownt ychwaith. Bydd yn rhaid felly i'r perchennog dalu Treth y Cyngor yn llawn. Fodd bynnag, gellir rhoi gostyngiad o 50% ar gyfer carafan neu pan fydd y sawl sy'n agored i dalu Treth y Cyngor hefyd yn agored i dalu'r un dreth am breswylfa arall, lle y mae'n rhaid iddo/iddi breswyllo fel amod o gyflogaeth neu pan fo'n rhaid i aelod o'r Luoedd Arfog fyw mewn llety hunangynhywysol (e.e. tŷ neu fflat) a ddarpenir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Preswylfeydd eithriedig - Gwnewch gais yn ddi-oed i osgoi'r posibilrwydd o golli cyfle i gael eich eithrio

Bydd rhaid talu Treth y Cyngor ar y rhan fwyaf o anheddau, ond bydd rhai'n cael eu heithrio ac ni fydd rhaid talu Treth y Cyngor arnynt. Mae'r eithriadau canlynol yn berthnasol, os bodlonir yr amodau:

- Anheddau a adawyd yn wag a heb ddodrefn (*eithriedig am y 6 mis cyntaf yn unig*)
- Preswylfeydd sy'n wag ac sydd heb eu dodrefnu ac y mae addasiadau'n cael eu gwneud i'w strwythu'r neu y mae angen gwneud gwaith adnewyddu sylweddol iddynt cyn bod modd byw ynddynt, a phreswylfeydd lle mae gwaith o'r fath wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar (*heb gael eu heithrio am gyfanswm o fwy na 12 mis*)
- Anheddau a adawyd yn wag gan gleifion sydd mewn ysbyty/cartref gofal
- Anheddau a adawyd yn wag gan bobl sy'n derbyn gofal, ac anheddau a adawyd yn wag gan bobl sy'n darparu gofal mewn mannau eraill
- Anheddau a adawyd yn wag wedi i'r perchennog -breswilydd diwethaf farw. Gallai amodau/terfynau amser eraill fod yn gymwys hefyd.
- Preswylfeydd a adawyd yn wag gan garcharorion
- Preswylfeydd sy'n wag ac sydd wedi cael eu hadfeddiannu, neu mewn achos o fethdalu,

sydd yn nwylo ymddiriedolwyr

- Neuaddau preswyl
- Preswylfeydd lle nad oes neb ond myfyrwyr yn byw (*neu wŷrlgwagedd priod, partneriaid sifil, neu ddibynnyddion penodol nad ydynt yn Brydeinig – gweler y gostyngiadau uchod*), rhai sydd newydd adael yr ysgol neu rai o dan 18 oed
- Preswylfeydd a adawyd yn wag gan berchennog sy'n fyfyrwr
- Anheddau lle nad oes ond rhywun sydd â salwch meddwl difrifol yn byw
- Eiddo gwag sy'n breswylfeydd offeiriadon/gweinidogion neu y mae elusennau'n berchen arnynt (*hyd at chwe mis ar gyfer yr olaf*)
- Pan fo gan yr un sy'n atebol imwneidd diplomyddol
- Tai gwag sydd yn gartrefi clerigwyr neu yn eiddo i elusennau
- Anheddau y mae'r ddeddf yn gwahardd pobl rhag byw ynddynt
- Rhandai sy'n cael eu meddiannu gan berthynas oedrannus neu anabl i'r preswylwyr sy'n byw yn y brif breswylfa.
- Rhandai gwag na ellir eu rhoi ar osod ar wahân i'r prif gartref.
- Llecyn parcio neu angorfa pan nad oes carafan neu gwch yno

Pobl Sydd ag Anableddau

Os bydd un neu fwy o'r nodweddion canlynol yn eich tŷ, y mae eu hangen i gwrdd ag anghenion penodol person anabl sydd yn byw yn eich tŷ, yn blentyn neu'n oedolyn, efallai y byddwch yn medru derbyn gostyngiad i'ch bil.

- ystafell, heblaw ystafell ymolchi, cegin neu doiled, a ddefnyddir yn bennaf gan y person anabl, neu
- ail gegin neu ystafell ymolchi a ddefnyddir er mwyn cwrdd ag anghenion y person anabl, neu
- ddrsau neu fynedfeydd lletach er mwyn medru defnyddio cadair olwyn yn y tŷ.

Ar ôl bwrw golwg dros y tŷ, os byddwch yn gymwys i dderbyn gostyngiad, codir Treth y Cyngor arnoch sydd ar lefel un band yn is na band priso eich tŷ.

Er enghraifft, os yw eich tŷ ym Mand 'D', codir tâl arnoch fel petai ym Mand 'C'.

NODER - O'r 1af Ebrill 2000 ymlaen, mae'r math hwn ar ostyngiad hefyd wedi bod ar gael i bobl sy'n byw mewn tai a osodwyd ym Mand 'A'. Bydd angen ffurflen gais arnoch oddi wrth Uned Treth y Cyngor.

Budd-Dâl Treth Y Cyngor - Prif Fudd-dâl Treth y Cyngor

Budd-dâl a luniwyd i helpu pobl sydd ar incwm isel yw hwn. Er enghraifft, os ydych yn derbyn Cymorthdal Incwm ni fyddwch fel arfer yn talu Treth y Cyngor. Efallai y byddwch yn gymwys hefyd os ydych yn gweithio ac os yw eich incwm o dan lefel arbennig.

Fel arfer, bydd eich hawl i gael budd-dâl yn dibynnu ar:

- Incwm
- Cynillion/Cyfalaf ac
- Amgylchiadau personol a theuluol.

Ad-daliad Ail Oedolyn

I fod yn gymwys ar gyfer ad-daliad ail oedolyn, mae'n rhaid i'r person atebol fod yn berson sengl (*neu ni ddylid cyfrif yr holl unigolion atebol eraill*) sydd yn rhannu'r tŷ ar sail nad yw'n fasnachol (*h.y. ni dderbynnir rhent*) gyda pherson neu bersonau sydd ar incwm isel.

A fydech cystal â ffonio Adain Fudd-daliadau'r Cyngor (01554 742100) i gael rhagor o wybodaeth

Explanatory Notes

These are brief notes for guidance only and further conditions may apply before a reduction may be awarded. For further information or advice on Council Tax see back of bill for contact details, or telephone 01554 742200. Alternatively, visit the County Council website www.carmarthenshire.gov.uk for the interactive Council tax section

Council Tax valuation bands

Every dwelling is now placed in one of the following 9 Valuation Bands :

Band	Property Value
A	Up to £44,000
B	£44,001 to £65,000
C	£65,001 to £91,000
D	£91,001 to £123,000
E	£123,001 to £162,000
F	£162,001 to £223,000
G	£223,001 to £324,000
H	£324,001 to £424,000
I	£424,001 and above

Properties are placed in the Band which represents their open market value as at April 2003. New properties built after April 2003 will be valued as if at that date. Your Council Tax bill shows the Band in which your property has been placed.

Valuation Appeals

The Valuation Office Agency - an arm of the Inland Revenue - is responsible for Council Tax valuations. If you believe that the valuation of your property is incorrect you may appeal to the Valuation Office at:

Government Buildings, Picton Terrace,
Carmarthen, SA31 3BT

or

Tŷ Nant, High Street, Swansea, SA1 1JR
(for properties in the former Llanelli Borough area)

Telephone helpline 0845 600 1748

You may also appeal if you believe there has been a material reduction in the value of your property, for example, due to demolition of part of the building, a change to the physical state of the local area, or adaptations to make the dwelling suitable for someone physically disabled.

There are rules and time-limits in relation to appeals. It is therefore advisable to contact the Valuation Office helpline for advice and guidance.

Appeals against liability to pay

You may also appeal if you consider that you are not liable to pay Council Tax, for example, because you are not the resident or owner, or because your property is exempt; or that the Council has made a mistake in calculating your bill.

If you wish to appeal on these grounds you must first notify the Council in writing so that they have the opportunity to reconsider the case. If you are not happy with the Council's response you may appeal further to a Valuation Tribunal.

Making an appeal does not allow you to withhold payment of tax in the meantime, but if your appeal is successful you will be entitled to a refund of any overpaid tax.

Further details of the appeal procedures (including the role of valuation tribunals) may be obtained from the Council.

Discounts – Please apply promptly for discounts to avoid any possible loss

If only one adult lives at a property there will be a 25% discount (but please see the notes below relating to **Empty properties and second homes**). The following people are not counted when looking at the number of residents provided certain conditions are met:

- Full time students, student nurses and foreign language assistants
- Students under 20 years of age undertaking a

qualifying part-time course.

- A student's spouse, civil partner or dependant who is not a British citizen and is prevented from taking paid employment or claiming State Benefits
- Persons who attract Child Benefit
- 18 & 19 year olds who are at, or have just left school
- Youth Training trainees and apprentices
- People who are severely mentally impaired
- Permanent residents of nursing homes or NHS hospitals.
- People caring for some one with a disability who is not a spouse, partner or child under 18
- Certain charity / Local Authority care workers
- Members of a religious community e.g. monks or nuns
- Hostel residents
- Members of Visiting Forces or International Headquarters and Defence Organisations
- Convicted and remand prisoners.

In addition to the statutory discounts mentioned above, Councils have the power to grant Discounts on a discretionary basis and according to local circumstances.

Empty properties and second homes

Most empty properties will be exempt from Council Tax for the first six months, after which a 50% charge will apply. There are some exceptions to this rule (as shown below) and in certain circumstances there will be no charge at all. (see *Exempt Dwellings below*)

If however, a property is furnished and is unoccupied, or is furnished and is not the main residence of anyone, there will be no exempt period, (but see *Exempt Dwellings below*) nor will there be any discount allowed. The owner will therefore be liable to pay the full Council Tax. However a 50% discount may be awarded in respect of a caravan or when the liable person for Council Tax, is also liable for another dwelling, where he/she has to reside as a condition of employment or when a member of the Armed Forces has to live in self-contained accommodation (e.g. house/flat) provided by the Ministry of Defence.

Exempt dwellings – Please apply promptly to avoid a possible loss of exemption

Most dwellings will be subject to the Council Tax, but some will be exempt and there will be no Council Tax to pay on them. The following Exemptions apply provided certain conditions are met:

- Dwellings which have been left empty and unfurnished (*exempt for the first 6 months only*)
- Unoccupied and unfurnished dwellings which are undergoing structural alteration or which require major renovation to make them habitable, and dwellings where such works have recently been completed (*exempt for no more than 12 months in total*)
- Dwellings left empty by patients in hospital/ care homes (*long term absence only*)
- Dwellings left empty by persons receiving care, and dwellings left empty by persons providing care elsewhere
- Dwellings left empty since the owner or tenant has passed away. Further conditions/time limits may apply.
- Dwellings left vacant by prisoners
- Unoccupied dwellings which have been repossessed or which are in the hands of trustees in bankruptcy

- Halls of residence
- Dwellings occupied only by students (*or certain non-British spouses, civil partners or dependants-see Discounts above*), school leavers or under-18's
- Dwellings left empty by a Student owner
- Dwellings occupied only by a person who is severely mentally impaired
- Empty properties which are clergy dwellings or are owned by charities (*up to 6 months for latter*)
- Armed Forces or Visiting Forces accommodation
- When the liable person has diplomatic immunity
- Dwellings that are prevented by law from being occupied
- Annexes occupied by an elderly or disabled relative of the residents living in the main dwelling.
- Empty annexes which cannot be let separately from the main home.
- A pitch or mooring not occupied by a caravan or boat

People with disabilities

If your home has one or more of the following features that are needed to meet the specific needs of a disabled person who lives at your property, child or adult, then you may be able to get a reduction in your bill.

- a room, other than a bathroom, kitchen or lavatory, which is used predominantly by the disabled person, or
- a second kitchen or bathroom used for meeting the needs of the disabled person, or
- widened doorways or access to cater for the use of a wheel chair indoors.

If, after an inspection of the property, you qualify for a reduction, you will be charged Council Tax at the level of charge one band below that in which your property has been assessed. For example, if your property is in Band 'D', you will be charged as if it were in Band 'C'.

NOTE – As from 1 April 2000, this type of reduction has also been available to persons living in properties valued in Band 'A'. You will need an application form from the Council Tax Section.

COUNCIL TAX BENEFIT Main Council Tax benefit

This is a benefit designed to help people who are on a low income. For instance, if you are on Income Support you will normally pay no Council Tax. You may also qualify if you work and your income is below a certain level.

Entitlement will usually depend on:

- Income
- Savings/Capital and
- personal and family circumstances.

Second adult rebate

To qualify for second adult rebate, the liable person has to be a single person (*or all other liable parties must not be counted*) who shares his/her property on a non-commercial basis (*i.e. no rent received*) with a person or persons on low income.

Please telephone the Council's Benefit Section (01554 742100) for further information.

Praeseptau Cynghorau Cymuned / Community Council Precepts 2011-2012

Cymuned Community	Praesept Precept 2010/2011	Praesept Precept 2011/2012	Treth Cyngor Band D Council Tax	Cymuned Community	Praesept Precept 2010/2011	Praesept Precept 2011/2012	Treth Cyngor Band D Council Tax
	£	£	£		£	£	£
Abergwili	25,000.00	25,500.00	36.16	Llan-y-crwys	750.00	750.00	7.72
Aber-nant	3,000.00	3,250.00	26.20	Pencarreg	8,000.00	8,000.00	16.21
Bronwydd	7,000.00	7,333.00	27.32	Castell Newydd Emlyn Newcastle Emlyn	19,702.25	20,687.36	46.26
Cilymaenllwyd	5,000.00	5,500.00	17.35	Tref Caerfyrddin Carmarthen Town	620,000.00	620,000.00	123.21
Cynwyl Elfed	9,596.64	9,754.00	23.00	Rhydaman Ammanford	39,832.15	40,230.48	21.83
Eglwys Gymyn	5,000.00	5,000.00	28.81	Cwmaman	70,200.00	75,043.00	50.39
Gors-las	52,650.00	54,872.00	35.16	Llandeilo	49,104.00	49,104.00	64.19
Henllanfallteg	3,401.09	1,756.00	8.81	Llanymddyfri Llandovery	46,000.00	46,000.00	59.17
Talacharn Laugharne	26,933.00	26,753.00	49.43	Betws	15,500.00	16,500.00	21.67
Llanarthne	14,761.00	14,761.00	42.67	Cil-y-cwm	4,500.00	4,500.00	20.97
Llanboidy	9,490.00	9,607.00	22.98	Cynwyl Gaeo	5,500.00	5,500.00	13.17
Llanddarog	13,500.00	14,097.00	27.24	Dyffryn Cennen	18,762.00	18,762.00	37.79
Llanddowror	11,000.00	10,000.00	30.30	Llanddeusant	1,600.00	1,600.00	12.99
Llandyfaelog	17,950.00	18,800.00	32.15	Llandybie	132,000.00	132,000.00	33.87
Llan-gain	9,710.00	9,456.00	34.30	Llanegwad	10,000.00	10,000.00	15.07
Llangyndeyrn	44,000.00	45,000.00	39.07	Llanfair-ar-y-bryn	3,400.00	3,800.00	14.56
Llangynnwr	34,000.00	34,500.00	34.41	Llanfihangel Aberbythych	17,000.00	16,500.00	29.74
Llangynin	3,000.00	3,092.00	25.12	Llanfynydd	4,300.00	4,100.00	19.62
Llangynog	7,000.00	7,000.00	32.90	Llangadog	10,000.00	10,000.00	17.14
Llanllawddog	6,500.00	6,700.00	21.11	Llangathen	7,000.00	7,000.00	27.69
Llanpumsaint	6,359.62	6,629.48	22.00	Llansadwrn	6,000.00	6,000.00	29.42
Llansteffan	15,000.00	15,000.00	30.58	Llansawel	4,500.00	4,500.00	24.42
Llanwinio	3,000.00	3,000.00	15.62	Llanwrda	10,500.00	10,500.00	47.00
Meidrim	7,000.00	8,000.00	32.51	Manordeilo & Salem	10,000.00	9,500.00	12.83
Llannewydd/Merthyr/Newchurch	5,600.00	5,600.00	18.90	Myddfai	2,200.00	2,266.00	13.26
Pentywyn Pendine	8,500.00	8,500.00	54.47	Cwarter Bach	36,861.37	37,305.73	40.98
Sandlŷr St Clears	68,641.00	70,064.00	60.65	Talylychau Talley	15,000.00	5,000.00	21.12
Llanismel St Ishmael	27,000.00	27,500.00	39.50	Tref Llanelli Llanelli Town	750,000.00	775,000.00	94.83
Tre-lech	0.00	0.00	0.00	Llanelli Wledig Llanelli Rural	913,610.00	946,370.00	123.74
Hendy-gwyn Whitland	31,220.00	33,720.00	50.11	Pen-bre a Phorth Tywyn Pembrey & Burry Port	264,626.00	276,436.00	89.02
Cenarth	8,500.00	8,500.00	16.56	Cydweli Kidwelly	92,441.00	95,131.00	77.35
Llanfihangel-ar-arth	32,000.00	37,000.00	42.80	Llanedi	90,500.00	135,558.00	66.31
Llanfihangel Rhos-y-corn	5,000.00	5,000.00	23.62	Llangennech	144,410.00	149,785.00	84.03
Llangeler	27,000.00	28,350.00	20.18	Llannon	161,400.00	163,200.03	90.27
Llanllwni	10,000.00	11,000.00	37.42	Pontyberem	83,103.00	84,961.00	88.69
Llanbydder	23,000.00	24,000.00	42.94	Trimsaran	46,703.99	46,704.74	56.10

Cymhariaeth â Chanllawiau'r Llywodraeth

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pennu Asesiad Gwariant Safonol ar gyfer y Cyngor. Dyma'r swm y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn asesu sydd ei angen, mewn termau cymharol, i ddarparu lefel safonol o wasanaeth yn yr ardal. Nodir isod yr asesiad ar gyfer 2011/12 ynghyd â chymhariaeth â gofynion cyllidebol y Cyngor:

Comparison with Government Guidelines

The National Assembly for Wales sets a Standard Spending Assessment for the Council. This is the amount which the National Assembly for Wales assesses is required to provide, in relative terms, a standard level of service in the area. The assessment for 2011/12 and a comparison with the Council's budget requirement is set out below:

Asesiad Gwariant Safonol Standard Spending Assessment

Gofynion Cyllidebol (gan gynnwys praeseptau Cymuned) Budget Requirement (inc Community Precepts)

Treth Cyngor Band D Council Tax

£m	£
315.087	973
316.690	998

Treth y Cyngor / Council Tax

Band Priso / Valuation Band
Cyfran o'r Dreth / Tax Proportion

	A 6/9 £	B 7/9 £	C 8/9 £	D 9/9 £	E 11/9 £	F 13/9 £	G 15/9 £	H 18/9 £	I 21/9 £
Y Cyngor Sir / County Council	621.85	725.49	829.13	932.77	1140.05	1347.33	1554.62	1865.54	2176.46
Heddlu Dyfed Powys / Dyfed Powys Police	126.06	147.07	168.08	189.09	231.11	273.13	315.15	378.18	441.21
Cynghorau Cymuned (cyfartaledd) / Community Councils (average)	43.82	51.12	58.43	65.73	80.34	94.94	109.55	131.46	153.37